**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**DYDD MERCHER, 28 HYDREF 2020**

Cofnodion cyfarfod o bell Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mercher, 28 Hydref 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Derek Butler, Ian Dunbar, Veronica Gay, Gladys Healey, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Dave Hughes a Brian Lloyd (Fel arsylwyr)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth; Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol; Swyddogion Cynllunio; Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygu Priffyrdd; a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 1. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Mike Peers gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag eitem 6.5 (061154) ar y rhaglen, oherwydd bod aelod o'r teulu wedi'i gyflogi gan Clwyd Alyn (yr ymgeisydd ar y cyd).

## 2. SYLWADAU HWYR

Eglurodd y Cadeirydd fod y sylwadau hwyr wedi cael eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod, ac atodwyd copi ohonynt i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4852&Ver=4&LLL=0

Sylwadau Hwyr

## 3. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2020 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorydd Chris Bithell eu cynnig a'r Cynghorydd Ian Dunbar eu heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**4. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) fod yr eitem ganlynol wedi'i hargymell i'w gohirio er mwyn galluogi swyddogion cynllunio i ystyried copi o'r farn gyfreithiol a gyflwynwyd gan wrthwynebwyr i'r cais a oedd wedi'i ddosbarthu'n ddiweddar. Pe bai'r Pwyllgor yn cytuno i ohirio'r eitem, byddai'n cael ei chyflwyno mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

**Eitem 6.9 (061489) ar y Rhaglen - Cais llawn - newid defnydd ôl-weithredol ar gyfer gweithredu safle fel defnydd B1, B2 a B8 am gyfnod dros dro o 18 mis, gan gynnwys ailgylchu a storio gwastraff carpedi nad yw'n beryglus a chadw'r adeiladau presennol ar gyfer swyddfeydd a gweithgynhyrchu gan gynnwys storio ategol yn 300 Recycling, Ystâd Ddiwydiannol Deva, Sandycroft.**

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Lloyd gymeradwyo gohirio'r eitem ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Kevin Hughes. Pan gynhaliwyd y bleidlais cafodd yr eitem ei gohirio.

**PENDERFYNWYD:**

Bod eitem rhif 6.9 (061489) ar y rhaglen yn cael ei gohirio i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol am y rheswm a nodwyd.

**5. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y'i cyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio a oedd ynghlwm fel atodiad.

**6. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 5.09 pm)

……………………………………………
**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gwe-ddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i'n llyfrgell o we-ddarllediadau ar: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 28 HYDREF 2020**

| **EITEM** | **CYNGOR TREF /CYMUNED** | **SAFLE/CYNNIG** | **SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL** | **PENDERFYNIAD** |
|---|---|---|---|---|
| 060220 | Cyngor Cymuned Argoed | Cais Llawn – Datblygiad preswyl ar gyfer codi 92 annedd, gan gynnwys darpariaeth unedau fforddiadwy, ardaloedd o fannau cyhoeddus agored, tirlunio a gwaith cysylltiedig yn New Brighton Road, New Brighton, Yr Wyddgrug. | Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Mared Eastwood, i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan Grŵp Preswylwyr Lleol i'r adroddiad yn y rhaglen. | Gwrthod y caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad. |
| 060855 | Cyngor Tref Bwcle | Materion a gadwyd yn ôl – cais am gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl ar gyfer datblygiad preswyl, gan gynnwys mynediad, man agored a holl waith cysylltiol ym Mythynnod Woodside, Bank Lane, Drury. | Siaradodd y Cynghorydd Mike Peers, fel Aelod Lleol, am y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 061229 | Cyngor Cymuned Cilcain | Cais llawn – Dymchwel ystafell haul ar flaen byngalo a chodi estyniad unllawr i flaen yr adeilad yn Marwin, Dolfechlas Road, Rhydymwyn. | Siaradodd y Cynghorydd Owen Thomas, fel yr Aelod Lleol, yn erbyn y cais.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan Gyngor Cymuned Cilcain i'r adroddiad. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| EITEM | CYNGOR TREF /CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan breswylydd lleol i'r adroddiad yn y rhaglen. | |
| 060372 | Cyngor Cymuned Cilcain | Cais llawn - lleoli caban pren i ddarparu defnydd ategol i'r brif annedd breswyl a lleoli carafán statig dros dro am gyfnod o 12 mis (ôl-weithredol) ym Mrynsholyn, Cefn Road, Cilcain. | Siaradodd y Cynghorydd Owen Thomas, fel yr Aelod Lleol, yn erbyn y cais.<br><br>Roedd Cyngor Cymuned Cilcain yn gwrthwynebu'r cais.<br><br>Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan yr asiant i'r cais i'r adroddiad yn y rhaglen. | Gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad y swyddog, ar y sail ganlynol:<br><br>• datblygiad amhriodol yng nghefn gwlad agored; ac<br>• nid yw'n cynrychioli llety ag anecs |
| 061154 | Cyngor Tref yr Wyddgrug | Cais llawn - Datblygiad preswyl arfaethedig ar gyfer 90 uned breswyl (40% ohonynt yn unedau fforddiadwy a byw â chymorth), man agored cyhoeddus, tirlunio, mynediad i gerddwyr a cherbydau, gwelliannau i isadeiledd priffyrdd a cherdded lleol ym Mhlas Aney, Ffordd Rhuthun, yr Wyddgrug. | Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Geoff Collett, i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan Gyngor Tref yr Wyddgrug i'r adroddiad.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan breswylydd | Gwrthod y caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad. |

| EITEM | CYNGOR TREF /CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | lleol i'r adroddiad.<br><br>Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan breswylydd lleol i'r adroddiad. | |
| 061248 | Cyngor Cymuned Llanfynydd | Cais Amlinellol gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer datblygiad preswyl sy'n cynnwys 14 uned gyda chymysgedd o dai pâr 2 lawr a thai ar wahân 3 llawr yn yr Hen Spectrum Home & Garden Centre, Ffordd Wrecsam, Cefn-Y-Bedd. | Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan yr asiant i'r cais i'r adroddiad.<br><br>Atodwyd datganiad gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Dave Hughes, i'r adroddiad.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan breswylydd lleol i'r adroddiad. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 061230 | Cyngor Tref Treffynnon | Cais llawn - datblygiad preswyl yn cynnwys 15 o unedau tai newydd a newid defnydd/trawsnewid cyn adain Ysbyty Lluesty, Hen Ffordd Caer, Treffynnon yn 14 o randai. | Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan yr Ymgeisydd i'r adroddiad.<br><br>Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Paul Johnson, i'r adroddiad. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 060783 | Cyngor Cymuned Mostyn | Cais llawn - datblygiad preswyl ar gyfer 20 o anheddau a gerddi cysylltiedig a maes parcio yn | Siaradodd y Cynghorydd Patrick Heesom, fel Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| EITEM | CYNGOR TREF /CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | Ffordd Pandarus, Maes Pennant, Mostyn. | Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan Gyngor Cymuned Mostyn i'r adroddiad.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan breswylydd lleol i'r adroddiad.<br><br>Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan breswylydd lleol i'r adroddiad. | |
| 061489 | Cyngor Cymuned Queensferry | Cais llawn - newid defnydd ôl-weithredol ar gyfer gweithredu safle fel defnydd B1, B2 a B8 am gyfnod dros dro o 18 mis, gan gynnwys ailgylchu a storio gwastraff carpedi nad yw'n beryglus a chadw'r adeiladau presennol ar gyfer swyddfeydd a gweithgynhyrchu gan gynnwys storio ategol yn 300 Recycling, Unedau A-D, Ystâd Ddiwydiannol Deva, Sandycroft, Glannau Dyfrdwy. | Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan yr asiant i'r cais i'r adroddiad.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan fusnes lleol i'r adroddiad. | Bod y cais yn cael ei ohirio i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol am y rheswm a nodwyd. |